# Gwobrau GIG Cymru 2026

# Canllaw Cynigion

**Gwobrau Gig Cymru:**
Dathlu rhagoriaeth wrth ysgogi gwelliannau a thrawsnewid gwasanaethau

GIG CYMRU NHS WALES
Perfformiad a Gwella
Performance and Improvement

gwobraugig.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Categorïau | 4 |
| Pwy sy'n gallu cystadlu a'r dyddiadau allweddol | 6 |
| Cwestiynau ar gyfer cynigion | 7 |
| Sut i gymryd rhan a'r awgrymiadau gorau | 10 |
| Cofiwch a chysylltwch â ni | 11 |






# Croeso i Ganllaw Cystadlu Gwobrau GIG Cymru

Mae Gwobrau GIG Cymru wedi dychwelyd ar gyfer 2026. Dyma ddeunawfed flwyddyn y gwobrau, ac maen nhw'n parhau i roi sylw i dimau sy'n ysgogi gwelliannau o ran ansawdd, diogelwch a pherfformiad i drawsnewid gwasanaethau, profiadau a chanlyniadau i bobl yng Nghymru.

## Pam cyflwyno cais?

Mae eich syniadau, eich gwaith caled a'ch ymrwymiad i greu newid yn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r bobl yn eich gofal, eich sefydliad a'r system iechyd a gofal ehangach. Dyma'ch cyfle chi i dynnu sylw at y gwaith gwella ansawdd yr ydych chi a'ch tîm wedi'i arwain. Trwy gyflwyno cais i'r gwobrau, bydd modd:

- rhannu eich llwyddiant a codi proffil eich gwaith gwella ansawdd,
- lledaenu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu a'ch gwelliannau,
- bod yn rhan o gymuned o ddysgu a gwella ledled Cymru.

## Yr hyn i'w ddisgwyl:

Ar ôl i chi gyflwyno eich cais, bydd ein panel o feirniaid, sy'n cynnwys cydweithwyr o Berfformiad a Gwella GIG Cymru, ochr yn ochr ag arbenigwyr allanol, yn adolygu pob cais yn erbyn set o feini prawf i greu rhestr fer.

**Am y tro cyntaf erioed, mae'n bleser gennym rannu'r ffaith y bydd enillwyr yn cael eu dewis gan gymheiriaid o bob rhan o GIG Cymru.**

Hysbysir timau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer, a byddant yn cael **pythefnos** i gwblhau poster graenus i arddangos eu prosiect. Darperir templed a chanllawiau ategol i helpu i lunio posteri. Bydd posteri yn cael eu dangos ar-lein, a bydd cydweithwyr o bob rhan o GIG Cymru yn cael eu gwahodd i fwrw pleidlais dros enillwyr y categori.

I symud ymlaen i'r cam pleidleisio, rhaid cyflwyno posteri o fewn yr amserlen benodedig. Yn anffodus, bydd unrhyw gais nad yw'n darparu poster erbyn y dyddiad cau yn cael ei ystyried yn annilys. Os bydd y pleidleisiau'n gyfartal, y panel beirniadu sy'n gyfrifol am lunio'r rhestr fer ar gyfer y categori hwnnw fydd yn penderfynu ar yr enillydd.

Bydd enillydd y Wobr Cyfraniad Rhagorol at Wella Gofal Iechyd yn cael ei ddewis o enillwyr y 13 categori.

Bydd pob tîm sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i seremoni wobrwyo gyda'r hwyr yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd, lle bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi a bydd tlysau a thystysgrifau yn cael eu cyflwyno. Darperir rhagor o fanylion am y seremoni yn fuan.

# Categorïau Gwobrau GIG Cymru 2026

Mae 13 categori i ddewis ohonynt, sy'n cyd-fynd â'r Ddyletswydd Ansawdd a Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023.

## 1 Gwobr Gofal Effeithiol GIG Cymru

Mae'r rhai sy'n cystadlu yn y categori hwn wedi dangos effaith gadarnhaol glir ar wneud y penderfyniadau clinigol gorau, naill ai mewn un llwybr neu ar draws sawl llwybr.

## 2 Gwobr Gofal Effeithlon GIG Cymru

Mae'r rhai sy'n cystadlu yn y categori hwn wedi dangos defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau i ddarparu gwerth i'r gwasanaeth a'r cleifion.

## 3 Gwobr Gofal Teg GIG Cymru

Bydd y rhai sy'n cystadlu yn y categori hwn wedi gwneud newidiadau sy'n dangos gwelliannau o ran mynediad at wasanaethau i bobl ag unrhyw nodweddion gwarchodedig neu bersonol penodol neu sy'n cydnabod ein cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.

## 4 Gwobr Gwybodaeth GIG Cymru

Mae'r rhai sy'n cystadlu yn y categori hwn wedi dangos defnydd o ddata a gwybodaeth i gyflawni gwelliannau, mesur effaith a chynnal canlyniadau.

## 5 Gwobr Arweinyddiaeth GIG Cymru

Mae gan y rhai sy'n cystadlu yn y categori hwn arweinydd neu dîm arwain sydd wedi defnyddio eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hymrwymiad i gyfrannu at lwyddiant y prosiect.

## 6 Gwobr Dysgu ac Ymchwil GIG Cymru

Mae'r rhai sy'n cystadlu yn y categori hwn wedi dangos ymrwymiad i gysylltu gweithgareddau dysgu a gwella â gweledigaethau strategol ar gyfer trawsnewid y sefydliad cyfan.

## 7 Gwobr Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn GIG Cymru

Mae'r rhai sy'n cystadlu yn y categori hwn wedi gwneud gwelliannau i sicrhau bod cleifion yn ganolog i benderfyniadau, gwasanaethau a'u gofal eu hunain. Mae'n bosibl bod prosiectau yn y categori hwn wedi mynd i'r afael ag anghenion amrywiol, a allai gynnwys sicrhau bod y Gymraeg mor weladwy â'r Saesneg ac nad oes rhaid i bobl sydd angen gwasanaeth Cymraeg ofyn amdano.

## 8 Gwobr Gofal Diogel GIG Cymru

Mae'r rhai sy'n cystadlu yn y categori hwn wedi gwneud gwelliannau mesuradwy i system neu broses i wneud y mwyaf o ddibynadwyedd gwasanaeth, rheoli risgiau'n weithredol ac ymgorffori dysgu.

## 9 Gwobr Diwylliant Tîm GIG Cymru

Mae'r rhai sy'n cystadlu yn y categori hwn wedi dangos bod y tîm wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel trwy feithrin diwylliant o waith tîm – o fewn y tîm, wrth ryngweithio â thimau eraill a chyda'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.

## 10 Gwobr Gofal Amserol GIG Cymru

Mae'r rhai sy'n cystadlu yn y categori hwn wedi gwneud gwelliannau mesuradwy o ran darparu gofal i'r bobl gywir, yn y lle cywir ac ar yr amser cywir.

## 11 Gwobr Dull System Gyfan GIG Cymru

Mae'r rhai sy'n cystadlu yn y categori hwn wedi dangos y gallu i weithio y tu hwnt i ffiniau sefydliadol a ffiniau'r sector i gyflawni canlyniadau sy'n bodloni anghenion newidiol gwasanaethau, nodau llesiant, a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 12 Gwobr Cynaliadwyedd Gweithlu GIG Cymru

Mae'r rhai sy'n cystadlu yn y categori hwn wedi mynd i'r afael â heriau'r gweithlu ac wedi gwneud newidiadau sy'n darparu datrysiadau parhaol ar gyfer darparu gofal diogel o ansawdd uchel.

## 13 Gwobr GIG Cymru am Berfformiad o Ansawdd Cyson Uchel

Gall y rhai sy'n ymuno â'r categori hwn ddangos tystiolaeth o ansawdd cyson uchel ym mherfformiad eu tîm, o ran cyrraedd targedau a chyflawni'r Ddyletswydd Ansawdd a Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 dros y 12 mis diwethaf a thu hwnt.


# Pwy all gynnig?

Rydym yn gwahodd unrhyw un sy'n gweithio ar draws GIG Cymru i gyflwyno cais, gan gynnwys staff a myfyrwyr clinigol ac anghlinigol.

Pan wneir cais mewn partneriaeth â sefydliadau yn y sector cyhoeddus neu'r sector gwirfoddol, y partner o'r GIG a ddylai gyflwyno'r cofnod.

**Am mai Perfformiad a Gwella GIG Cymru yw corff lletya Gwobrau GIG Cymru, ni fydd modd inni dderbyn ceisiadau gan gydweithwyr sy'n gweithio iddo. Ni fydd unrhyw gyflwyniadau sy'n dod i law yn symud ymlaen i'r rhestr fer. Fodd bynnag, mae croeso i unrhyw dimau sy'n cael eu cefnogi gan Berfformiad a Gwella GIG Cymru wneud cais.**

# Dyddiadau allweddol



# Cwestiynau Cystadlu

Y terfyn geiriau ar gyfer cais yw **1750 o eiriau**. Dyrennir 250 o eiriau ar gyfer pob cwestiwn, ac nid yw eich teitl a'ch disgrifiad o'r nod yn cael eu cynnwys yn y cyfanswm geiriau.

Gellir atodi tystiolaeth ategol (data, graffiau, delweddau ac ati) yn ôl yr angen.

## 1 Teitl

(15 o eiriau – heb ei gynnwys yn y cyfrif geiriau cyffredinol)

Rhowch deitl i arddangos eich prosiect yn effeithiol gan ddefnyddio 15 gair neu lai. **Cofiwch mai eich teitl fydd y peth cyntaf y bydd pobl yn ei weld.** Dylech chi ddefnyddio iaith glir a diddorol ac osgoi acronymau.

Os byddwch chi'n cyrraedd y rhestr fer, bydd eich teitl i'w weld yn gyhoeddus ar bosteri, gwefan y gwobrau a chaiff ei gyhoeddi yn y seremoni. Efallai y bydd angen inni fyrhau a golygu eich teitl ymhellach at ddibenion arddangos.

**Enghreifftiau:**

Pontio'r Bwlch: Mynd i'r Afael ag Allgáu Digidol mewn Gofal Mamolaeth drwy'r Banc Data Mamolaeth

Data wedi'i Ddatgloi: Mewnwelediadau Amser Real sy'n Grymuso Pob Nyrs

## 2 Beth oedd nod y prosiect gwella?

(20 o eiriau – heb ei gynnwys yn y cyfrif geiriau cyffredino)

**Bydd y beirniaid yn chwilio am y canlynol:**

- disgrifiad 20 o eiriau neu lai o'r hyn yr oeddech chi'n ceisio'i gyflawni,
- mesur targed rhifol,
- ac amserlen ar gyfer ei gyflawni.

## 3 Sut oeddech chi'n gwybod bod angen gwelliant?

(250 o eiriau)

**Bydd y beirniaid yn chwilio am y canlynol:**

- disgrifiad o'r broblem a'r ffactorau yr oedd yn golygu bod angen newid,
- tystiolaeth feintiol a/neu ansoddol o'r broblem a oedd yn cael ei datrys (data sylfaenol).

## 4 Beth wnaethoch chi benderfynu ei wneud a phwy wnaethoch chi ei gynnwys? (250 o eiriau)

**Bydd y beirniaid yn chwilio am y canlynol:**

- disgrifiad o sut y cafodd y prosiect ei strwythuro,
- esboniad o unrhyw ddull neu fframwaith a ddefnyddiwyd,
- a manylion unrhyw waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed.

## 5 Pa newidiadau wnaethoch chi eu profi a pha ganlyniadau gawsoch chi? (250 o eiriau)

**Bydd y beirniaid yn chwilio am y canlynol:**

- tystiolaeth o brofi newid a'r camau a gymerwyd,
- defnyddio data i fesur canlyniadau dros amser,
- a thystiolaeth o ddysgu trwy wneud.

## 6 Beth oedd canlyniad yr holl newidiadau a wnaethoch? (250 o eiriau)

**Bydd y beirniaid yn chwilio am y canlynol:**

- disgrifiad o'r canlyniadau cyfredol/terfynol,
- tystiolaeth ansoddol a/neu feintiol o'r newidiadau a wnaed,
- ac effaith y newid ar gleifion, cydweithwyr, a'r system ehangach.

## 7 Beth ddysgoch chi? (250 o eiriau)

**Bydd y beirniaid yn chwilio am y canlynol:**

- disgrifiad o'r newid a'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect,
- disgrifiad o'r hyn y byddai'r tîm yn ei wneud yn wahanol,
- disgrifiad o'r prosesau gwerthuso yr ydych chi wedi'u dilyn,
- a myfyrio ynghylch a wnaethoch chi gyflawni'r nod gwreiddiol.

8

## Beth fyddwch chi'n ei wneud nesaf? (250 o eiriau)

**Bydd y beirniaid yn chwilio am y canlynol:**

- disgrifiad o unrhyw ddatblygiadau pellach sydd ar y gweill,
- myfyrio ynghylch sut y bydd yr hyn a ddysgwyd yn cael ei ddefnyddio,
- awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid rhoi'r prosiect hwn ar waith yn genedlaethol (neu'n ehangach), a thystiolaeth os ydych chi eisoes wedi gwneud hynny.

9

## Pam mae eich prosiect yn haeddu ennill y categori rydych chi wedi cystadlu ynddo? (250 o eiriau)

**Bydd y beirniaid yn chwilio am y canlynol:**

- esboniad o pam mae eich prosiect yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y categori rydych chi wedi cystadlu ynddo,
- beth sy'n arbennig am yr hyn rydych chi wedi'i gyflawni sy'n golygu ei fod yn nodedig ac yn deilwng o ennill wobr,
- unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylid ei hystyried yng nghyd-destun eich prosiect.

# Sut i Gystadlu

Ymgeisiwch ar-lein drwy blatfform cyflwyno Gwobrau GIG Cymru:
nhswales.awardsplatform.com

Ewch ati i lenwi'r holl feysydd angenrheidiol, ychwanegu unrhyw gyd-awduron perthnasol ac atodi unrhyw dystiolaeth ategol (data, graffiau, delweddau ac ati) cyn cyflwyno'ch cais. **Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael cymeradwyaeth eich Cyfarwyddwr Gweithredol cyn cyflwyno'ch cais.**

**Gwnewch yn siŵr bod gennych gytundeb gan unrhyw gyd-awduron cyncyflwyno'r cais.**

Ni ellir cyflwyno'r un prosiect mewn sawl categori. Os yw eich prosiect yn perthyn i sawl categori, ein cyngor i ymgeiswyr yw y dylid dewis y categori sy'n adlewyrchu gwelliant mwyaf amlwg o fewn y prosiect orau. Chi sydd i benderfynu pa gategori sydd fwyaf addas.

## Awgrymiadau da ar gyfer cyflwyno eich ceisiadau

- **Ystyriwch pa gam o'ch prosiect gwella yr ydych arno.** Os ydych chi yng nghyfnodau cynnar eich prosiect o hyd, efallai yr hoffech chi aros am Wobrau GIG Cymru yn y dyfodol er mwyn i chi wir allu dangos effaith eich gwaith gwella. Cofiwch ein bod ni eisiau gweld data a chanfyddiadau eich prosiect.
- **Estynnwch allan am gymorth.** Cysylltwch â'ch Tîm Gwella neu'ch Arweinydd Gwella i gael cymorth gyda'ch cais. Gallwch chi hefyd anfon e-bost at Dîm Gwobrau GIG Cymru yn gwobraugigcymru@wales.nhs.uk gydag unrhyw gwestiynau.
- **Rhowch atebion clir a chryno.** Bydd hyn yn eich helpu i aros ar y trywydd iawn ac ennyn diddordeb y beirniaid. Os cewch chi'ch dewis fel un o'r ymgeiswyr terfynol, bydd yr atebion hyn hefyd yn helpu i lunio eich poster.
- **Sylwch ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno.** Trafodwch a chytunwch ar amserlenni fel tîm i alluogi digon o amser i bawb gyfrannu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael digon o amser i'ch Cyfarwyddwr Gweithredol lofnodi eich cais a chytuno arno cyn cyflwyno'ch cais.

## Cofiwch y canlynol

- Rhaid i'r holl gynigion gael eu derbyn erbyn **5:00pm, ddydd Llun 15 Mehefin 2026**.
- **Cyfanswm nifer y geiriau a ganiateir ar gyfer ceisiadau yw 1750 gair**, ac mae'r adrannau wedi'u rhannu'n 250 gair yr un. Nid yw eich teitl a'ch nod yn cael eu cynnwys yn y cyfanswm geiriau.
- Gellir uwchlwytho tystiolaeth ategol fel data, lluniau, graffiau ac ati yn uniongyrchol i'r blatfform ymgeisio, yn ôl yr angen.
- Gellir gwneud ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Gofynnir i'r rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol greu poster yn crynhoi eu prosiectau gan ddefnyddio'r templed a'r canllawiau a ddarperir. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan Gwobrau GIG Cymru a'u defnyddio yn ystod y cyfnod pleidleisio. Bydd posteri hefyd yn cael eu harddangos yn y seremoni wobrwyo gyda'r hwyr.
- Mae eich cynnig yn cynrychioli ac yn adlewyrchu eich cydweithwyr, eich sefydliad a chi eich hun.
- Bydd eich cais yn cael ei ddarllen gan weithwyr proffesiynol eraill o wahanol gefndiroedd, nid gofal iechyd yn unig. Dylech osgoi acronymau a defnyddio iaith glir lle bo'n bosibl.
- Os cewch chi'ch dewis fel un o'r rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol neu'n enillydd, efallai y bydd tîm Gwobrau GIG Cymru yn cysylltu â chi ar ôl y gwobrau i weld sut mae eich gwaith yn datblygu, ac i archwilio cyfleoedd pellach i arddangos eich prosiect.

## Cysylltu â ni

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:
gwobraugigcymru@wales.nhs.uk

**Dilynwch Gwobrau GIG Cymru ar gyfryngau cymdeithasol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf:**

Facebook: Gwobrau GIG Cymru

Instagram: @gwobrau_gig_cymru

Ewch i wefan Gwobrau GIG Cymru: gwobraugig.cymru